



department for
**culture, media
and sport**



United Nations
Educational, Scientific and
Cultural Organization



World Heritage
in the United Kingdom

Meini prawf UNESCO ar gyfer asesu Gwerth Cyffredinol Eithriadol (para 77 o'r Canllawiau Gweithredol)

- (i)** yn cynrychioli campwaith o athrylith creadigol dynol;
- (ii)** yn arddangos cyfnewid pwysig gwerthoedd dynol, dros gyfnod amser neu o fewn ardal ddiwylliannol o'r byd, ynghylch datblygiadau mewn pensaernïaeth neu dechnoleg, celfyddydau ar ffurf henebion, cynllunio tref neu ddylunio tirlun;
- (iii)** yn deyrnged unigryw neu o leiaf eithriadol i draddodiad diwylliannol neu i ddiwylliant sy'n byw neu sydd wedi diflannu;
- (iv)** yn enghraifft eithriadol o fath o adeilad, casgliad pensaernïol neu dechnolegol neu dirlun sy'n dangos cyfnod(au) arwyddocaol yn hanes dyn;
- (v)** yn enghraifft eithriadol o anheddiad, defnydd tir neu ddefnydd môr dynol traddodiadol sy'n cynrychioli diwylliant (neu ddiwylliannau), neu ryngweithio dyn â'r amgylchedd yn enwedig pan fydd wedi dod yn agored i niwed o dan effaith newid di-droi'n ôl;
- (vi)** yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n ddiriaethol â digwyddiadau neu draddodiadau byw, â syniadau, neu â chredoau, â gweithiau celfyddydol a llenyddol o arwyddocad cyffredinol eithriadol;
- (vii)** yn cynnwys ffenomena naturiol o'r radd flaenaf neu ardaloedd o harddwch naturiol a phwysigrwydd aesthetig eithriadol;
- (viii)** yn enghreifftiau eithriadol sy'n cynrychioli cyfnodau pwysig yn hanes y ddaear, gan gynnwys cofnod o fywyd, prosesau daearegol parhaus arwyddocaol yn natblygiad tirffurfiau, neu nodweddion geomorffig neu ffisiograffig arwyddocaol;
- (ix)** yn enghreifftiau eithriadol sy'n cynrychioli prosesau ecolegol a biolegol parhaus arwyddocaol yn esblygiad a datblygiad ecosystemau daearol, dŵr croyw, arfordirol a morol a chymunedau o blanhigion ac anifeiliaid;
- (x)** yn cynnwys y cynefinoedd naturiol pwysicaf a mwyaf arwyddocaol at ddibenion cadwraeth *in-situ* amrywiaeth biolegol, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys rhywogaethau dan fygythiad sydd o werth cyffredinol eithriadol o safbwynt gwyddoniaeth neu gadwraeth.